

# Cylchlythyr—Ebrill 09



**MENTER IAITH SIR DDINBYCH**  
**ADEILAD DEIAMWNT, 6 HEIGAD, DINBYCH, LL16 3LF**  
**01745 812822**



## Gair gan y Cadeirydd

Croeso i gylchlythyr y Fenter unwaith eto. Mae cyfnod y Gaeaf wedi mynd heibio a bu'n un llawn gweithgareddau a chydweithio effeithiol a pharod gyda'n partneriaid i gyd ledled y Sir. Erbyn hyn rydym wedi hen gynefino yn hapus yn ein swyddfa newydd ac mae'n braf cael Cerian yn ôl gyda ni ar y tîm. Mae'r gwanwyn a'r haf yn cynnig nifer o heriadau diddorol i'r Fenter Iaith, gyda'r Ymgyrch 'Kids Soak it Up' yn gychwyn egniol i'r broses. Cofiwch os ydych am wybod mwy am ein gwaith a'n cynlluniau cymerwch olwg ar y safle gwe neu galwch i fewn yn y swyddfa i wybod mwy am y criw sydd yno. Os ydych am gynnig cymorth fel gwirfoddolwr neu dod yn aelod o'r Fenter rydym bod amser yn reit awyddus i groesawu ffrindiau newydd. Beth amdani felly? Mawr hyderaf y byddwch yn darllen ymlaen i wybod am ein cynlluniau a'n prosiectau i hyrwyddo'r Gymraeg yn Sir Ddinbych yn ystod y cyfnod nesaf. Diolch am eich cefnogaeth bob amser, a diolch o galon i'r staff am eu gwaith ffantastig fel arfer!

Andrea Miller, Cadeirydd.

## Cymraeg— Kids soak it up

Cafwyd ymgyrch lwyddiannus iawn eleni gan i ni ddsbarthu dros 400 o fagiau.

Roedd ein taith trê'n ar Reilffordd Llangollen gyda Sali Mali a Sam Tân yn hynnod o boblogaidd gyda 200 wedi dod draw i fwynhau'r daith a chyfarfod y cymeriadau. Rhaid sydd diolch i'r rheilffordd a'i gwirfoddolwyr am eu cydweithrediad. Mi fuom yn ymweld â nifer o gylchoedd ti a fi, sesiynau Iaith a Chware a chlinigau yn ystod yr wythnosau. Cafwyd diwrnod lwyddiannus a positif iawn yn Boots Y Rhyl lle cawsom ddiwrnod ffotograffiaeth lle tynnwyd dros 70 o luniau. Cawsom gyfleoedd gwych i siarad gyda rhieni yn ystod yr ymgyrch



a'u darbwylllo ynglŷn â manteision addysg Gymraeg.

Hoffem ddiolch i bawb o'n partneriaid a fuodd yn brysur iawn yn ystod yr ymgyrch.

## Treftadaeth—Murluniau



Ers diwedd mis Ionawr mae grŵp o ddysgwyr wedi bod yn ymarfer eu Cymraeg drwy fynychu gwersi celf i wneud Murlun. Cafwyd chwe sesiwn pum awr yn y Capel Mawr Dinbych. O dan arweiniad Eleri Jones cynhyrchwyd Murlun a oedd yn portreadu Sir Ddinbych gan gynnwys afonydd Elwy a Chlwyd a thraethau Y Rhyl a Phrestatyn.

Mae'r diolch am ariannu'r cwrs 6 wythnos yma i Goleg Harlech a Chronfa Dreftadaeth y Loteri. Cafwyd 6 sesiwn llawn hwyl yn ogystal ag addysgiadol a profodd y cwrs yn gyfle gwych i'r dysgwyr ddefnyddio eu Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Ym mis Mawrth cymerodd Ysgol y Gwernant, Llangollen ac Ysgol Cefn Meiriadog rhan mewn prosiect ar y cyd â Menter Iaith Sir Ddinbych. Thema'r prosiect oedd Murluniau'r Mabinogion. Ariannwyd y prosiect hwn gan Cadwyn Clwyd a Chronfa Dreftadaeth y Loteri.



Cyd weithiodd Wendy Lawrence a Neil Dalrymple gyda'r plant ysgol i greu Murluniau ar storiâu o'r Mabinogion. Mae'r Mabinogion yn gyfres o Chwedlau ac yn rhan gyfoethog o dreftadaeth Cymru. Fe wnaeth Ysgol Gwernant ei murlun ar stori Taliesin ac roedd rhaid i bob plentyn wneud ffigur unigol o'r anifeiliaid yn y stori. Stori Branwen oedd Murlun Ysgol Cefn Meiriadog ac roedd y Murlun yn mynd trwy holl olygfeydd y chwedl o'r cychod yn glanio yn Harlech i Bendigeidfran yn defnyddio ei gorff fel pont.



Mae'r Murluniau bellach wedi eu cwblhau ac maent wedi'i arddangos yn yr ysgolion. Cafodd y plant y cyfle i weithio gyda chlai, cael hwyl, a dysgu ychydig am storiâu'r Mabinogion a threftadaeth ein gwlad drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gerallt Lyall

Swyddog Addysgol Treftadaeth Iaith

## Prosiect Cardiau Post

Bu'r Fenter yn cydweithio gyda Gyrfa Cymru a Gwasg Helygain i gynnal sesiwn dylunio cerdyn post gyda disgyblion Ysgol Uwchradd Prestatyn ac Y Rhyl. Cafwyd ymateb positif iawn gan y disgyblion wrth iddynt fynd ati i ddylunio cerdyn post i hyrwyddo'r Gymraeg /dweithrywdd. Cynhyrchwyd 1,000 o'r cerdyn buddugol o bob ysgol er mwyn ei dosbarthu o fewn yr ysgol a'r gymuned leol. Diolch i bawb oedd yn rhan o'r prosiect.